**A Wales of Vibrant Culture and Thriving Welsh Language** With explicit provision in the current framework covering the provision of material in the Welsh Language, libraries are well placed to contribute in this area. They promote and protect Welsh Culture and language, and encourage participation in the arts and recreation through the availability of a good range of stock in Welsh, and a host of cultural events and activities. Core entitlements include 2, 3, 6, 8, 9 and 10 and quality indicators 2, 6, 8, 9 and 10 are particularly relevant here.

**A Globally Responsible Wales** A commitment to make the most efficient use of resources is embodied in the quality indicators. The Culture division of Welsh Government works with the British Standards Institute and International Standards Organisation in developing and using quality indicators for Libraries that conform to ISO 11620. Further the borrowing of books is a great recycling tool, reducing the impact on the environment. Libraries in Wales work together in book purchasing consortia, digital e-book consortia and the All Wales Library Management system. Core entitlement 12 is directly related to global good practice, while quality indicators 14 and 15 are related to the balance and efficiency of service provision.

SCL would politely direct the Committee to the following reports

Public library service annual reports 2019 to 2020 | GOV.WALES

Welsh Libraries report 2020 to 2021 (gov.wales) – (collated report due to Pandemic)

The 2021-22 reports are due to be published shortly by the Culture Division of Welsh Government.

## Local Authority Library and Leisure Services – Community Managed Libraries National Peer Network Response

The Community Managed Libraries National Peer Network helps community managed libraries (CMLs) to run effectively and successfully by sharing ideas, learning, experiences and inspiration.

No one understands community managed libraries better than the people and communities who fought to retain their local libraries and related services their communities want and need. We are from the full spectrum of CMLs including independently funded to those who receive local authority support. Our primary members are trustees or people who work in community managed libraries but can also include those wishing to form a trust or community groups exploring the possibilities of CMLs.

We want community managed libraries to

- be aware of, and able to grasp opportunities such as funding and advice
- provide mutual support and learning
- operate as effectively as possible, to make them sustainable in the long term

To achieve this we want community managed libraries to:

- be aware of, and able to grasp opportunities such as funding and advice
- provide mutual support and learning
- operate as effectively as possible, to make them sustainable in the long term

**The current state of local authority leisure and library service provision;**

The Public Libraries and Museums Act 1964 gives local authorities a statutory duty "…to provide a comprehensive and efficient library service for all persons desiring to make use thereof". As public sector budgets have been repeatedly cut, many local authorities have been unable to maintain their existing network of libraries and explored other ways of providing the service, using community-managed models.

Community managed models are varied, suiting the needs of the community and their relationship with the local authority and statutory service, but they are characterised by the level of volunteer involvement throughout all aspects of their delivery.

**How local authorities use alternative models of service delivery in Wales, and the perceived benefits associated with them;**

CMLs are positive about playing a role as a community hub and see this as a natural fit with their community ethos. They provide a diverse range of activities, services, support and outreach which goes above and beyond what local authority library service provision is able to provide:

<u>Activities</u>

- Reading & writing groups
- Arts & cultural events from exhibitions to performances.

- Health and wellbeing: gardening; dementia groups; yoga; mindfulness sessions; weight-loss groups
- Lifelong learning: lectures; local history society meetings; crafts sessions; U3A groups Social: 'knit and natter' groups; Women's Institute groups, quiz nights; games nights

Outreach

- ESOL groups
- Fuel poverty advice
- Foodbanks and community fridges
- Legal signposting
- Providing 'Warm Spaces'
- Projects and programmes delivered through grant funding initiatives.

Retail & Hospitality

- Retail: second-hand book stores; selling artworks by local artists and books by local authors
- Hospitality: Cafes; hot drinks machine; bars

Services

- IT & Digital support and equipment; laptop & device lending, providing data, support for job seekers
- Business support
- Mental health services
- Tuition
- Careers and welfare: work-finding skills; advice on benefits, housing and blue badge applications; Citizens Advice Bureau

There are nearly **20,000** volunteers supporting community libraries in England & Wales to grow and thrive. This not only benefits library service provision, embedding community voices throughout, but provides significant benefits and opportunities to the volunteers.

In 2011, the Museums, Libraries and Archives Council (MLA) did a review of some of the first community-managed libraries. They concluded that 'existing community libraries have achieved something over and above keeping the library open within their areas, offering new activities and social events, engaging their local communities and often exampling a beneficial effect on community cohesion' (Woolley 2011). In some cases, they noted that CMLs were also able to improve the service by increasing numbers of users and lengthening opening hours.

Community libraries delivered by charities, CICs, CIOs and parish councils allow for a flexible approach to fundraising, procurement and the development of services to the benefit of their specific community. It is however vital that community libraries are recognised for their efforts and successes and continue to be recognised as part of the provision of public libraries in England & Wales. It is clear that alternative models to delivering library services can provide a cheaper and more effective service, however to ensure that the service is sustainable in the long-term, it requires public investment.

**Good practice to ensure sustainability of local leisure and library services for future generations.**

Many local authority-run libraries have become community hubs through co-location with other services. These community hubs tend to be characterised by large buildings (either large library buildings in which other services are also offered, or large buildings offering a range of services, of which one is the library) and by a focus on alignment of a range of public services. Community-managed libraries may be in similar physical co-location arrangements but are mostly smaller, yet still able to offer space for groups and clubs, may have cafes or second hand bookstores, and may have relationships with local services to provide drop in ‘surgeries’ (e.g. the police, local MPs, or planning authorities).

The key indicator of successfully run library services, developing alternative models of delivery, is it’s ability to diversify services while meeting the needs and expectations of their community. This can differ greatly from location to location, and demonstrates why change led by community engagement is so important to ensure sustainability.

Ymgynghoriad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

03 Ebrill 2023

Parliament Cymru
Ymchwiliad i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol.

Sharon Davies, Head of Education

Papur 5

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru

Ni yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rydym yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Y 22 Cynghorau yng Nghymru yw ein aelodau ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Rydym yn credu bod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**

Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi cysylltu â'u cyngor trwy ddemocratiaeth leol. Trwy gefnogi, hwyluso a chyflawni'r cysylltiadau hyn, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n caniatáu i gymunedau ffynnu.

**Ein prif nod** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**

• Hybu rôl ac amlygrwydd cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
• Sicrhau disgresiwn lleol mwyaf mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
• Cefnogi a sicrhau cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau
• Hybu gwelliant o dan arweiniad sector
• Annog democratiaeth leol fywiog, sy'n hybu mwy o ddemocratiaeth
• Cefnogi Cynghorau i reoli eu gweithlu yn effeithiol

**Cyflwyniad**

Ymateb ydy hwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

**Cyflwr presennol y gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd a ddarperir gan awdurdodau lleol.**

O fewn y 22 cyngor mae trefniadau gwahanol yn eu lle ar gyfer rheoli eu gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd.

Ar gyfer hamdden, mae wyth o wasanaethau sy'n cael eu rheoli gan y cyngor; un ar ddeg a reolir gan ymddiriedolaethau; mae dau gyngor wedi sefydlu eu Cwmnïau Masnachu Awdurdodau Lleol eu hunain (CMALl), ac mae gan un cyngor drefniant gyda gweithredwr.

Ar gyfer llyfrgelloedd, mae deunaw o wasanaethau sy'n cael eu rheoli gan y cyngor a phedwar yn cael eu rheoli gan ymddiriedolaethau.

Mae tri ymddiriedolaeth sy'n rheoli gwasanaethau hamdden a llyfrgell.

Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn dweud nad oes newidiadau mawr ar y gweill ar gyfer eu gwasanaethau, er bod nifer yn wynebu pwysau cynyddol.

Dros y 13 mlynedd diwethaf, yn ystod cyfnod hir o lymder, mae gwasanaethau'r llyfrgell ar draws cynghorau wedi lleihau'n sylweddol, ac wedi cael sawl adolygiad ac ailstrwythuro i geisio dod o hyd i fodel cynaliadwy ar gyfer y tymor hir. Er enghraifft, mewn un cyngor, mae'r gyllideb refeniw wedi haneru, o £2.4 miliwn yn 2013 i £1.2 miliwn heddiw.

Gwneir defnydd da o unrhyw gyfleoedd ariannu grant er mwyn datblygu'r gwasanaeth i drigolion. Cafodd cefnogaeth a chyllid Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru dderbyniad da, yn enwedig yn ystod yr adferiad Covid.

**Yr heriau ariannol a gweithredol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gynnal y gwasanaethau cymunedol hanfodol hyn.**

Mae gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd cynghorau yn wynebu pwysau cynyddol. Adferiad wedi Covid, yr argyfwng costau byw a staffio yw'r prif bwysau sy'n cael eu hadrodd.

Mae'r rhan fwyaf o gynghorau wedi dweud na fydd modd cau eu cyfleusterau hamdden, er bod nifer wedi gweld bod eu cyllidebau dan bwysau difrifol ac yn cynnal adolygiad o'u gwasanaethau yn y flwyddyn ariannol hon gyda'r holl opsiynau'n cael eu hystyried. Gallai hyn arwain at wneud penderfyniadau anodd yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae costau ynni cynyddol yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllidebau refeniw.

Mae pyllau sy'n cael eu gweithredu gan ymddiriedolaeth gymunedol o dan bwysau cynyddol oherwydd costau cynyddol a chyflwr adeiladau.

Dywedodd un cyngor eu bod yn nodi'r pwysau ar rai o'u cyfleusterau trosglwyddo a lleoliadau bach lle mae pwyllgorau rheoli yn dechrau plygu ac yn cael effaith ar eu darparu gwasanaethau.

Mae llawer o gyfleusterau hamdden ar draws cynghorau yn cael eu rhedeg gan gyfleusterau ysgolion. Mewn un cyngor, mae dau bwll nofio bellach wedi trosglwyddo o gyfleusterau Addysg i Hamdden, gan fod nifer o gynghorau yn rhesymoli ar draws cyfleusterau a gwasanaethau.

Mae cyllid grant yn bwysau ychwanegol ar y gwasanaethau hyn, gan nad yw nifer o'r grantiau (megis y Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol (CYCC)) wedi cynyddu eu cyllid ers blynyddoedd lawer (sy'n golygu bod cynghorau'n codi'r diffyg), ac erbyn hyn costau ychwanegol y cynnydd mewn chwyddiant ar hyn o bryd.

Fe welodd nifer o gynghorau ymadawiad o staff profiadol yn ystod Covid ac ar ôl Covid. Er, mae nifer wedi recriwtio staff newydd, mae'r gost o hyfforddi staff newydd wedi ychwanegu at y pwysau sydd ar gyllidebau.

Mae maint daearyddol rhai cynghorau yn rhoi llawer mwy o her ar gynnal darpariaeth ar draws y cyngor sydd ar gyfer bwrdeistref drefol gyda chysylltiadau trafnidiaeth da. Mewn un cyngor, roedd y gwasanaeth wedi lleihau mor sylweddol i gwrdd â phwysau cyllidebol blaenorol, fel nad yw'n gadael unrhyw ddewis arall nawr ond cau pwyntiau gwasanaeth i gyflawni unrhyw ostyngiadau ariannol pellach, gyda cholli buddion eang i'r cyhoedd. Yn weithredol, mae'r strwythur staffio mor denau fel bod darparu gwasanaethau bron ar dorri pwynt, ac mae risg uchel o gau dros dro oherwydd salwch staff. Bydd y cyfnod o'n blaenau yn un heriol dros ben, ac fe fydd yn amhosib cynnal y lefel bresennol o wasanaeth.

Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn dioddef o'r diffyg strategaeth a rôl glir ar gyfer gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus sy'n cael ei ariannu'n dda ar lefel Llywodraeth Cymru, er gwaethaf y cymorth amhrisiadwy y mae staff llyfrgelloedd cyhoeddus yn ei ddarparu ar gyfer preswylwyr a darparu gwasanaethau eraill, o ran llythrennedd a dysgu, mynediad at wybodaeth a chefnogaeth, cynhwysiant digidol, mynediad at adnoddau a gweithgareddau diwylliannol,  ac yn feirniadol, iechyd a lles. Mae'r diffyg strategaeth genedlaethol hon a'r flaenoriaeth ar fuddion y gwaith a'r gefnogaeth ataliol cynnar a ddarperir gan lyfrgelloedd i drigolion Cymru yn cael ei gario drwodd i gyllidebau a chynlluniau lleol yn naturiol.

Mae rhai cynghorau'n wynebu heriau enfawr o ran unrhyw ddatblygiadau cyfalaf, er enghraifft, Ceredigion, oherwydd lefelau ffosffad a'r canllawiau drafft Llifogydd TAN15.

**Trefniadau a strategaethau ymadael awdurdodau lleol ar gyfer achosion lle nad yw'r modelau darparu amgen a ddefnyddir yn llwyddiannus.**

Mewn un cyngor, NPT, yn hanesyddol mae Hamdden Celtaidd wedi cael y cytundeb rheoli ar gyfer gweithredu chwe chanolfan hamdden ynghyd â Neuadd Gwyn yng Nghastell-nedd. Fe wnaeth y pandemig arwain at bwysau ariannol ar y cwmni, ac fe wnaethon nhw ofyn wedyn i'r cyngor am gymorth ariannol sylweddol. Fel cwmni sydd ag un contract gweithredu nid oedd y cyfleoedd i dwyllo rhai o'r costau ar draws sawl safle ar ddod, gan gynyddu'r effaith ariannol y tu hwnt i'r hyn y gallai fod wedi bod. Fe wnaeth yr ymarfer hwn hefyd ddatgladdu rhai pryderon am y gwaith Hamdden Celtaidd a phenderfynodd y cyngor geisio dewisiadau amgen yn y farchnad.
Yn dilyn ymarfer caffael lle dangosodd nifer o weithredwyr ddiddordeb penderfynodd y Cyngor y ffordd fwyaf effeithiol o reoli'r cyfleusterau a sicrhau'r budd mwyaf posibl i bobl leol oedd mewn ffynhonnell, gyda dyddiad o Ebrill 2023 yn cael ei bennu i ddechrau.

Mae rhyfel Wcráin a'r codiad dramatig dilynol mewn costau cyfleustodau wedi golygu bod y dyddiad hwn wedi'i roi yn ôl i fis Ebrill 2024 gyda'r flwyddyn ychwanegol yn cael ei defnyddio i ddod â chostau a chynorthwyo'r trawsnewid i lawr fel bod yr effaith yn cael ei leihau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a staff.
Gan ei bod yn ymwybodol erioed i Hamdden Celtaidd gadw annibyniaeth i'r cwmni bydd y cyngor yn gweithio gyda nhw i helpu i reoli costau, gyrru incwm a gosod y strwythur staffio ac arwain sydd ei angen.

O ran gwasanaethau llyfrgell, mae llawer o gynghorau sydd â llyfrgelloedd cymunedol neu drefniadau partneriaeth gymunedol sy'n cefnogi llyfrgelloedd lleol yn gweld cau fel yr unig opsiwn sydd ar gael os na allen nhw ddod o hyd i bartneriaid eraill i fynd â nhw ymlaen. Ni allai eu strwythurau a'u cyllidebau gefnogi cymryd darpariaeth yn ôl i'r gwasanaeth.

Mae un cyngor yn ymateb i Archwilio Cymru ar eu darpariaeth hamdden ar hyn o bryd ac maen nhw'n ystyried arfarniad o opsiynau ar gyfer gwahanol fodelau gweithredu yn ogystal â'r posibilrwydd y bydd y gwasanaeth yn ail-syfrdanu yn fewnol.

**Sut mae'r broses o ddarparu gwasanaethau eraill a ddarperir gan awdurdodau lleol yn rhyngweithio â gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd.**

Mae'r cyfleusterau hamdden a llyfrgell mewn cynghorau yn rhyngweithio'n dda iawn gydag ystod eang o wasanaethau ar lefel weithredol ac yn gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth i sicrhau llawer o fanteision i drigolion. Dros y blynyddoedd, mae cysylltiadau agos gydag ysgolion lleol, lleoliadau addysgol a chlybiau a grwpiau, wedi hen ennill eu plwyf yn yr ardaloedd gwasanaeth hyn. Mae'r ddarpariaeth o ddysgu oedolion, y blynyddoedd cynnar ac yn fwyaf diweddar yr hybiau cynnes,

hefyd wedi galluogi'r gwasanaethau hyn i aros yn rhan ganolog o'r ddarpariaeth gymunedol o fewn y cynghorau.

Mae partneriaethau cryf gyda'r Byrddau Iechyd lleol er enghraifft, ym Mhowys mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn rhoi benthyciadau iPad i unigolion er mwyn eu galluogi i gymryd rhan mewn atgyfeiriadau iechyd a sesiynau therapi ar-lein gyda dros 500 o sesiynau wedi'u galluogi dros y 6 mis diwethaf.

Cynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol (CAYCC). Mae'r Cynllun yn targedu cleientiaid 16 oed a hŷn sydd â neu sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd cronig gan roi mynediad iddynt i raglen ymarfer corff dan oruchwyliaeth o ansawdd uchel. Caiff ei reoli a'i ddarparu'n lleol gan y gwasanaethau hamdden ar draws Cymru ac mae llwyddiant y cynllun yn deillio o'r gwasanaeth hwn yn gweithio mewn partneriaeth agos â gweithwyr iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon teulu, ffisiotherapyddion, dietegwyr, nyrsys practis a therapyddion galwedigaethol. Gall y gweithwyr iechyd proffesiynol gyfeirio eu cleientiaid at amrywiaeth o raglenni sy'n cael eu darparu mewn cyfleusterau hamdden yn ogystal ag allan yn y gymuned.

Bu'r gwasanaethau hamdden a llyfrgell yn gweithio ar y cyd am flynyddoedd lawer mewn cynghorau, er enghraifft, i gynnig talebau nofio i deuluoedd am ddim i bob plentyn sy'n cwblhau her ddarllen flynyddol yr haf; Dyma un o nifer o ddyrchafiadau ar y cyd ar hyd llinellau 'meddyliau iach, cyrff iach'. Mae hyn yn annog trigolion i fod yn fwy actif yn feddyliol ac yn gorfforol.

Mae gweithgareddau celfyddydol a diwylliant yn hollbwysig yn y nod o ehangu ymgysylltiad o fewn cymunedau drwy ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Cefnogir lleoliadau hamdden a llyfrgelloedd gan sefydliadau a phartneriaid sy'n cyflwyno ac yn arddangos y celfyddydau o bob math. Mae'r gefnogaeth hon yn cael ei hariannu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

Mae gan lawer o gyfleusterau yn hamdden a llyfrgelloedd hybiau casglu sbwriel yn eu cymunedau, gan fenthyg pecynnau i grwpiau cymunedol. Mae hwn yn bartneriaeth gyda gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu a Cadwch Gymru'n Daclus.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnal ystod eang o arddangosfeydd a gweithgareddau ar gyfer gwasanaethau eraill, e.e., ymgyrchoedd galw heibio diweddar i gydweithwyr Gofal Cymdeithasol i recriwtio gofalwyr.

Mae'r gwasanaethau hyn hefyd yn darparu cyswllt wyneb yn wyneb a mynediad at wasanaethau'r cyngor. Wrth i adeiladau'r cyngor gau mewn rhai trefi dros y blynyddoedd, mae llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden wedi dod yn bwynt cyswllt, yn enwedig ers ar ôl Covid a'r ffordd rithiol o weithio.

Fodd bynnag, gall y rôl ganolog y mae'r gwasanaethau hyn yn ei chwarae i hwyluso'r holl ddarpariaethau niferus yng nghymunedau cyngor gael ei chydnabod a'i

danbrisio'n wael ar adegau gan gynghorau ar lefel strategol eang a hefyd ar lefel Llywodraeth Cymru.

**Sut mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau, a’r manteision canfyddedig sy’n gysylltiedig â’r modelau hynny.**

Fel y cyfeirir yn gynharach, o fewn y 22 cyngor mae trefniadau gwahanol mewn lle ar gyfer rheoli eu gwasanaethau hamdden a llyfrgell.

Mae'r rhan fwyaf o ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant yn sefydliadau dielw gydag unrhyw elw yn cael ei ail-fuddsoddi i'r gwasanaethau. Fel arfer maent yn cael eu llywodraethu gan Ymddiriedolwyr o'r gymuned leol sy'n eu galluogi i gefnogi eu cymuned.

I'r cynghorau hynny sydd â gwasanaethau mewnol mae strwythurau staffio craidd yn y gwasanaethau hyn yn wynebu heriau sylweddol oherwydd diffyg recriwtio i swyddi gwag a chadw staff allweddol. Fel y cyfeiriwyd, yn gynharach, er, bod nifer wedi recriwtio staff newydd, mae cost hyfforddi staff newydd wedi ychwanegu at y pwysau ar gyllidebau.

Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn dibynnu ar gyfleoedd gwirfoddol i alluogi darparu mwy o weithgareddau ac yn rhoi cyfle i'r trigolion fod yn weithgar yn eu cymunedau, yn rhoi yn ôl, ac o bosib yn dysgu sgiliau newydd. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn opsiwn rhad ac am ddim, ond mae angen llawer iawn o amser ac ymdrech i gynnig profiadau gwerth chweil i wirfoddolwyr. Mewn rhai ardaloedd mae'n anodd recriwtio gwirfoddolwyr oherwydd blinder gwirfoddol sy'n gallu arwain at gynnig anghyson ac annhegwch.

Mae cyfleusterau cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr yn galluogi'r lleiaf o ddarpariaethau i aros ar agor, ac mae hyn yn arbennig o wir am lyfrgelloedd bach. Maent yn darparu mynediad at lyfrau a rhyngweithio cymdeithasol i'w trigolion. Mae ansawdd y gwasanaeth yn amrywiol, ac unwaith eto mae faint o hyfforddiant a chefnogaeth sydd ei angen gan y gwasanaeth llyfrgelloedd yn gwneud hyn yn anodd i'w gynnal.

Mae partneriaethau cymunedol wedi llwyddo ac yn darparu tystiolaeth glir o ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned wrth gyd-gynhyrchu atebion ar lefel leol. Er mai'r manteision yw bod y partneriaethau hyn wedi galluogi cadw gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor yn y cymunedau, ac mae grwpiau wedi gwella cyfleusterau lleol, gallant fod yn llafurus o ran meithrin perthynas a chynnal a chadw, monitro, ac adrodd ar delerau cytundebau, ac ati. Maen nhw hefyd yn fregus a gallent hefyd blygu os yw'r partneriaid yn penderfynu tynnu allan gan eu bod yn ddibynnol ar unigolion o fewn y cymunedau sy'n gyrru'r gwaith codi arian yn lleol.

Mae partneriaethau ymarferol yn caniatáu i gynghorau gyflawni mwy gyda'i gilydd.

**Arfer da o ran sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau lleol hamdden a llyfrgelloedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**

Ystyrir cydweithio a phrosesau caffael ar y cyd yn ffordd effeithiol a mwy llwyddiannus o ddarparu mwy o adnoddau a chyfleusterau ac mae wedi profi'n fwy cynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o wir wrth edrych ar wasanaethau llyfrgell. Mae system rheoli llyfrgelloedd Cymru a'r consortiwm prynu Cymreig ar gyfer stoc llyfrgell ac e-adnoddau ar draws awdurdodau Llyfrgelloedd Cymru wedi bod yn hynod lwyddiannus, yn bennaf oherwydd gwaith caled Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr (Cymru). Mae hyn wedi galluogi gwasanaeth llyfrgell Powys i ddarparu mwy o adnoddau a chyfleusterau nag y gallent eu fforddio. Mae dadl glir dros wasanaeth llyfrgell gyhoeddus ledled Cymru, sy'n debyg i fodel Gogledd Iwerddon, gyda strategaeth gydlynol yn darparu deddfwriaeth statudol ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus, a chyllid craidd digonol i staff, hyfforddiant a chyflawni. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn sicrhau cymaint o fanteision fel sy'n cael eu hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'r rhain mewn perygl o gael eu colli ar hyn o bryd.

Mae angen fframwaith cadarn hefyd i fesur y dychweliad cymdeithasol ar fuddsoddiad a ddarperir o fewn gwasanaethau hamdden a llyfrgell, o ran dulliau ataliol a chanolig ar yr unigolyn a'r galw ar wasanaethau cost uwch fel gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

Mae'n bwysig nodi y dylai gwasanaethau hamdden a llyfrgell fod yn flaengar, ac yn edrych i ddatblygu, yn hytrach na chynnal gwasanaethau. Mae gwaith a wnaed ar Strategaeth Ddigidol y Gwasanaethau Diwylliannol wedi tynnu sylw at yr angen am fuddsoddiad ariannol i gefnogi gofynion cwsmeriaid sy'n newid a mynediad at ddysgu gydol oes mewn cymdeithas sydd wedi'i tharfu'n ddigidol. Bydd blaenoriaethau'n cynnwys, (ond heb eu cyfyngu i): ymgysylltu â'r cyhoedd gyda, a'u cyfarwyddo ar dechnolegau sy'n esblygu, datblygu sgiliau llythrennedd cyfryngau; integreiddio technolegau SMART i mewn i adeiladau er mwyn gwella mynediad at wasanaethau yn ogystal â gwneud adeiladau'n fwy amgylcheddol gynaliadwy; a staff uwchsgilio fel y gallant harneisio'r technolegau hyn i sicrhau bod mwy o weithgareddau a gwasanaethau ar gael ar-lein, (mae hyn o bwysigrwydd arbennig mewn cynghorau gwledig). Bydd canolbwyntio ar ddatblygu'r gweithlu, a gwelliannau i seilwaith ac offer digidol yn hanfodol wrth symud ymlaen, fel bod gan staff proffesiynol y galluoedd a'r adnoddau i gynorthwyo cymunedau i fyw'n dda ac yn annibynnol yn yr oes ddigidol.

# Eitem 7

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**4 Mai 2023 – clawr y papurau i'w nodi**

| **Rhif y papur** | **Mater** | **Oddi wrth** | **Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| Papur 6 | Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 | Y Pwyllgor Cyllid | I'w nodi |
| Papur 7 | Yr Hawl i Gael Tai Digonol | Comisiynydd Cenedlaetholau'r Dyfodol Cymru | I'w nodi |
| Papur 8 | Digartrefedd | Llywodraeth Cymru | I'w nodi |

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@Senedd.Cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

19 Ebrill 2023

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Ymgysylltu

Yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth 2023, trafododd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ei raglen ymgysylltu ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, sydd ar ddod, cyn dadl flynyddol y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant, a drefnwyd ar gyfer 12 Gorffennaf. Rwy'n ysgrifennu at Gadeirydd pob pwyllgor pwnc i rannu ein syniadau. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi yn yr hydref. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiad i randdeiliaid, grwpiau ffocws a gynhelir gyda'r cyhoedd, a gweithdy gydag aelodau o'r Senedd Ieuenctid.

## Digwyddiad i randdeiliaid: Wrecsam

Bydd digwyddiad rhanddeiliaid eleni yn cael ei gynnal ar gampws Prifysgol Glyndŵr (Canolfan Catrin Finch) yn Wrecsam fore Iau 15 Mehefin. Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle i'r Pwyllgor glywed yn uniongyrchol gan sefydliadau/unigolion sydd â diddordeb ar y cynigion disgwyliedig yn y gyllideb ddrafft, yn ogystal â'u safbwyntiau ar ddull Llywodraeth Cymru o bennu'r gyllideb a blaenoriaethu adnoddau. Gan fod gwaith ar draws y pwyllgorau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y gyllideb yn hanfodol ar gyfer gwaith craffu effeithiol, hoffwn wahodd Cadeiryddion y Pwyllgorau neu Aelod o bob Pwyllgor i ymuno â'r digwyddiad.  Os oes gan Gadeiryddion neu Aelodau ddiddordeb mewn

dod i’r digwyddiad, dylech gysylltu â'r tîm clercio erbyn 22 Mai, gan ddefnyddio’r cyfeiriad e-bost a ganlyn: SeneddCyllid@Senedd.Cymru.

### Ceisio barn y cyhoedd yng Nghymru drwy gynnal grwpiau ffocws ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion

Ar ran y Pwyllgor, bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn y Senedd yn cynnal cyfres o grwpiau ffocws cyhoeddus ar y gyllideb ddrafft. Mae’r tîm wedi cynnal ymarferion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf, a nod y gwaith hwn yw llunio astudiaeth hydredol a fydd yn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro safbwyntiau ac agweddau dros amser. Deuir o hyd i gyfranogwyr drwy sefydliadau partner tebyg er mwyn cael yr un ddemograffeg â'r hyn a gafwyd y llynedd, a bydd grwpiau'n cael eu trefnu i ganolbwyntio ar feysydd polisi penodol. Bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn rhannu dyddiadau’r sesiynau â phob Pwyllgor, ar gyfer unrhyw Aelod sydd am gymryd rhan. Bydd hyn yn gyfle i Aelodau glywed yn uniongyrchol gan ddinasyddion Cymru ynghylch lle y dylid blaenoriaethu gwariant.

### Senedd Ieuenctid Cymru

Y llynedd, i ategu ein gwaith ymgysylltu ymhellach, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy gydag Aelodau o’r Senedd Ieuenctid. Roedd y profiad o glywed yr Aelodau ifanc hyn yn siarad yn agored am y materion sy’n ymwneud â nhw ac sy’n effeithio’n uniongyrchol arnynt yn hynod fuddiol. Rydym yn awyddus i barhau i adeiladu ar y gwaith amhrisiadwy hwn, a byddwn yn gwahodd yr Aelodau ifanc i gymryd rhan mewn gweithdy eto eleni.

### Dadl y Pwyllgor Cyllid yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru

Fel y soniwyd uchod, mae’r Pwyllgor yn bwriadu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 12 Gorffennaf ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Bydd canlyniadau ein gwaith ymgysylltu yn llywio’r ddadl honno ac yn bwydo i mewn iddi, a dyma fydd y cyfle gorau i ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn i’r Gyllideb Ddrafft gael ei llunio yn yr hydref. Fel bob amser, byddem yn croesawu cyfranogiad Cadeiryddion y Pwyllgorau, ynghyd â’r Aelodau eraill, fel rhan o’r ddadl hon, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a blaenoriaethau Pwyllgorau’r Senedd yn llywio cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

### Y dull o graffu ar y Gyllideb

Byddaf yn ysgrifennu at y Cadeiryddion cyn hir ynglŷn â dull y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb, gan gynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad a’r amserlen ar ôl i’r Trefnydd roi gwybod i’r Pwyllgor Busnes am ddyddiadau cyhoeddi’r Gyllideb Ddrafft.

Mae’r Pwyllgor Cyllid wedi ceisio sicrhau bod proffil ac effeithiolrwydd y gwaith craffu a wneir ar y gyllideb yn y Senedd yn destun gwella parhaus, a bod y cyhoedd yng Nghymru yn gallu ymgysylltu’n llawn â’r broses honno. Fel y gwyddoch, rydym ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau â’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar gynigion i ddiwygio’r Protocol ar gyfer Proses y Gyllideb, sy’n amlinellu’r

ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a’r Senedd o ran y trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol a materion eraill sy’n gysylltiedig â’r gyllideb.

Yn ogystal, yn ystod cylch cyllideb y llynedd, cytunodd y Pwyllgor i ymgynghori â’r pwyllgorau eraill ar y ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â’i chynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, gyda’r bwriad o geisio gwella’r wybodaeth sy’n cael ei darparu. Ysgrifennais at y Cadeiryddion ar y mater hwn ar 8 Mawrth, ac rwy’n ddiolchgar i’r pwyllgorau sydd wedi ymateb. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i’r pwyllgorau am y datblygiadau sy’n dod i’r amlwg.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

John Griffiths MS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Gadeirydd

Diolch am y cyfle i ychwanegu fy safbwynt, fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd Cymru, at ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i'r Hawl i Dai Digonol. Gobeithiaf y bydd y llythyr hwn o gymorth i'ch trafodaethau. Mae lle i'w alw'n gartref yn gonglfaen i sicrhau ein llesiant. Mae cael mynediad at dai digonol yn ymwneud â mwy nag osgoi digartrefedd. Mae'n ymwneud â chael cymuned, mynediad at wasanaethau a'r posibilrwydd o greu bywyd teilwng i ni a'n teuluoedd yn y dyfodol lle gallwn wneud y mwyaf o'n cyfleoedd iechyd a mynegi ein hunaniaeth ddiwylliannol.

Yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a gyhoeddwyd yn 2020, galwodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am ymgorffori egwyddorion yr Hawl i Dai Digonol sydd wedi'u hymgorffori yn y Cenhedloedd Unedig yn llawn ym mholisi tai Cymru. Mae Erthygl 11 o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol yn datgan:

*"Mae'r Gwladwriaethau Cyfrannog yn y Cyfamod presennol yn cydnabod hawl pawb i safon byw ddigonol iddo'i hun a'i deulu, gan gynnwys bwyd, dillad a llety digonol, ac i wella amodau byw yn barhaus."*

Y farn a nodwyd gennym yw bod hawl o'r fath yn sail i lawer o'r manteision ehangach a amlinellir yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol y byddai dod â digartrefedd i ben, i iechyd, i gydlyniant cymunedol, i gydraddoldeb ac i ffyniant. Adleisiwyd yr alwad hon yn ein Maniffesto ar gyfer y Dyfodol cyn etholiadau'r Senedd yn 2021.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithredu i gyhoeddi Papur Gwyn i gynnwys cynigion ar gyfer hawl i dai digonol. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i nodi sut y gellir cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i wireddu hyn.

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

**Y Pum Ffordd o Weithio**

Mae’r Ddeddf yn nodi pum Ffordd o Weithio y mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau, er enghraifft, wrth ddatblygu polisi.

Integreiddio

Mae adroddiadau gan Alma Economics yn 2021 a 2022 yn nodi mai elfennau allweddol yr hawl i dai digonol yw:

(i) sicrwydd deiliadaeth gyfreithiol: sicrhau amddiffyniad cyfreithiol yn erbyn troi allan mympwyol, aflonyddu a bygythiadau eraill;

(ii) argaeledd gwasanaethau, deunyddiau, cyfleusterau a seilwaith: cyfleusterau angenrheidiol ar gyfer iechyd, diogelwch, cysur a maeth (e.e. mynediad at ddŵr yfed diogel, ynni ar gyfer coginio, gwresogi a goleuo);

(iii) fforddiadwyedd: mae’r costau tai ar y fath lefel nad yw’n peryglu gallu aelwyd i gyrraedd anghenion bywyd sylfaenol eraill;

(iv) y gallu i fyw ynddo: gwarantu digon o le ac amddiffyniad rhag oerfel, lleithder, gwres, glaw, gwynt neu fygythiadau eraill i iechyd, peryglon strwythurol a chlefydau;

(v) hygyrchedd: ystyried anghenion grwpiau difreintiedig;

(vi) lleoliad: mynediad hawdd at wasanaethau (cyflogaeth, gofal iechyd, ysgolion, canolfannau gofal plant a chyfleusterau cymdeithasol eraill);

(vii) digonolrwydd diwylliannol: galluogi mynegiant o hunaniaeth ddiwylliannol.

Bydd cyflawni'r rhain yn gofyn am ddull integredig ar draws ystod o feysydd polisi, ac mae'r mwyafrif helaeth, os nad y cyfan, yn dod o dan bolisi datganoledig Cymru.

Trwy integreiddio, mae’r Ddeddf yn mynnu nad yw datblygu polisi mewn un maes yn niweidiol i ddatblygiad polisi mewn maes arall lle mae’n cyd-fynd â hyrwyddo Nod Llesiant a’r egwyddor datblygu cynaliadwy. Ymhlyg yn hyn yw na ddylid datblygu unrhyw bolisi sy'n niweidiol i faes polisi arall sy'n cefnogi mynediad i dai digonol. Yn gadarnhaol, rydym yn gweld y gweithredu hwn yng Nghymru ar draws meysydd fel

Comisinydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

trafnidiaeth, datgarboneiddio, a chynllunio sydd, gyda'i gilydd, yn atgyfnerthu llawer o'r elfennau hyn o dai digonol.

Mae'r Ddeddf yn rhagnodi y dylai Llywodraeth Cymru ystyried nid yn unig ei hamcanion llesiant ei hun wrth ddeall effeithiau ei phenderfyniadau, ond y dylai hefyd ystyried yr effaith ar amcanion llesiant pob corff cyhoeddus arall y gallai penderfyniadau o'r fath effeithio arnynt, megis awdurdodau cynllunio lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

Cydweithio

Gall gweithio'n well ac yn gallach gyda phobl, cymunedau ac o fewn gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru helpu i wireddu'r agweddau amrywiol ar yr hawl i dai digonol. Mae hyn yn cynnwys osgoi dyblygu, datgloi synergeddau a nodi meysydd lle gallant gydweithio a/neu atgyfnerthu gwaith ei gilydd.

Ymgyfraniad

Mae'n ofynnol yn ôl y Ddeddf bod y rhai y mae nod llesiant yn effeithio arnynt, neu sydd â diddordeb mewn cyflawni nod llesiant, yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fod yn agored i ddylanwad dinasyddion a rhanddeiliaid, gan symud i ddiwylliant o 'weithio gyda' yn hytrach na 'gwneud i'. Mewn cyferbyniad ag ymgynghori, mae dulliau cynnwys yn gweithio gyda phobl ar gamau cynharach, megis helpu i nodi problemau ac atebion posibl, a chael eu cefnogi i barhau i gymryd rhan drwy gydol y prosesau dylunio, gweithredu a gwerthuso. Mae'n bwysig deall yn llawn yr effeithiau gwahanol y gallai penderfyniadau eu cael ar wahanol gymunedau, a pham. Bydd cynlluniau llesiant ardal leol yn fan cychwyn da ar gyfer deall gwahaniaethau daearyddol.

Wrth ystyried cydweithio a chynnwys fel ffordd o weithio, argymhellodd adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020:

- Gweithio gyda sefydliadau a chymunedau i osod gweledigaeth a strategaeth hirdymor ar gyfer dyfodol tai yng Nghymru.
- Fel rhan o'r weledigaeth a'r strategaeth hon gweithredu argymhellion yr Adolygiad Tai Fforddiadwy, yr Adolygiad Annibynnol ar Ddatgarboneiddio Cartrefi Cymru ac adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.

Rydym yn croesawu'r camau sydd wedi'u cymryd ers hynny a fydd yn dechrau gwireddu'r argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Siarter Cartrefi a Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru gan gynnwys digwyddiad ym Machynlleth ym mis Chwefror eleni. Edrychwn ymlaen at ddysgu mwy am ganlyniad y gwaith hwn.

Atal

Mae hyn yn galw ar gyrff cyhoeddus i weithredu mewn ffordd sy'n atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae diffiniad safonol o atal wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru. Wrth gymryd hyn i ystyriaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod polisi tai yn atal problemau, neu gostau yn wir, rhag pentyrru yn y dyfodol. Er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd ffactorau megis lleoliad datblygiadau tai ac agosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau eraill; datblygiadau diogelu'r dyfodol ar gyfer addasu hinsawdd megis perygl llifogydd ac erydu arfordirol; ansawdd tai a'r angen i ddatgarboneiddio ar raddfa gyflym.

Mae ein hadroddiad 2021, Cartrefi sy'n Addas i'r Dyfodol: yr Her Ôl-osod, yn nodi sut y gellir mynd i'r afael â datgarboneiddio tai er mwyn cyrraedd targedau lleihau carbon Cymru ar gyfer Sero Net.

Hirdymor

Mae hyn yn cyfeirio at bwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd (yr egwyddor datblygu cynaliadwy).

Wrth ystyried meddwl ataliol a hirdymor, argymhellodd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020:

- O fewn y flwyddyn nesaf, nodi sut y bydd cynllun hirdymor ar gyfer ariannu datgarboneiddio cartrefi yn unol â thargedau allyriadau carbon.
- Ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad tai a ariennir yn gyhoeddus fod yn garbon niwtral a dangos sut y maent yn bodloni gofynion ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Archwilio'r defnydd o ysgogiadau ariannol drwy'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Tai Arloesol i annog arloesi wrth ddatblygu tai a chymunedau rhwng

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

cenedlaethau a defnyddio ysgogiadau trethiant i gymell rhannu tai rhwng cenedlaethau.

- Sicrhau y dylid diweddaru Gofynion Ansawdd Dylunio i adlewyrchu'r dyfodol o ran cartrefi clyfar a thechnoleg byw â chymorth.

- Cefnogi a chynyddu datblygiad mentrau cymdeithasol i ddarparu swyddi a sgiliau mewn dulliau adeiladu newydd yn seiliedig ar fodelau a sefydlwyd gan Down to Earth a Cartrefi Conwy.

Unwaith eto, rydym yn croesawu camau i gynyddu'r uchelgais yn y Safon Ansawdd Tai Cymru ddrafft 2023 a'r Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru diwygiedig 2021. Byddem yn pwysleisio bod angen gwneud mwy yn y sector tai preifat, yn benodol, i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan y rheini yn byw yn y sector rhentu preifat, y mae Pwyllgor CCEI y Senedd wedi archwilio'i fanylion yn ddiweddar.

Gyda'i gilydd, bydd y pum Ffordd o Weithio yn sicrhau datblygiad cynaliadwy gyda phob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl nawr nac yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,

D. Walker

Derek Walker

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – Digartrefedd**

---

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, ac i bawb a gymerodd yr amser i roi tystiolaeth ar sail eu profiad a'u harbenigedd, er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor ar ddigartrefedd.

Erys Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig o hyd i'n nod hirdymor o roi diwedd ar ddigartrefedd, drwy ei wneud yn rhywbeth prin, byrhoedlog, na fydd yn digwydd eto, ac rwy'n ddiolchgar am waith y Pwyllgor i'n helpu i gyflawni'r nod cyffredin hwn. Adlewyrchir yr uchelgais hon yn y Rhaglen Lywodraethu, sy'n cynnwys ymrwymiad i ddiwygio cyfraith tai a gweithredu ar argymhelliad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn gyfan gwbl er mwyn iddynt ganolbwyntio ar atal ac ailgartrefu’n gyflym.

Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, mae ein cynllun gweithredu lefel uchel ar roi diwedd ar ddigartrefedd yn nodi sut rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, ac mae argymhellion y Pwyllgor yn dra chyson â'r cynllun hwn. Ni fydd un dull na gweithred yn rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Mae hyd a lled yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn dangos yr ymateb uchelgeisiol ar draws sectorau ac ar draws gwasanaethau cyhoeddus sydd ei angen i atal digartrefedd yn y lle cyntaf a gweddnewid y ddarpariaeth tuag at ailgartrefu cyflym.

Mae ein cynlluniau a'n partneriaid cyflawni, yn anochel, wedi gorfod ymaddasu er mwyn ymateb i'r pwysau nas rhagwelwyd sy'n deillio o'r argyfwng costau byw a'r argyfwng dyngarol o ganlyniad i'r rhyfel yn Wcráin. Rwy'n ddiolchgar o hyd am ymdrechion glew'r rhai sy'n gweithio yn y sector tai a digartrefedd i ymateb i'r heriau a'r pwysau hyn sy'n parhau. Er y byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r pwysau uniongyrchol yn y system a sicrhau ein bod yn cefnogi'r rhai y mae angen tai arnynt, mae'n hollbwysig hefyd ein bod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn ystyried sut rydym yn parhau â'r gwaith eithriadol a wnaed gan ein partneriaid cyflawni yn ystod y pandemig a thu hwnt a ffurfioli hynny.

Yn allweddol i hyn bydd diwygio'r ddeddfwriaeth gyfredol ym maes tai, ac mae'n bleser gennyf nodi bod gwaith ar ddatblygu'r diwygiadau hyn eisoes yn mynd rhagddo. Mae Panel Adolygu Arbenigol, sy'n cynnwys aelodaeth o bob rhan o'r sector Tai ar waith, a bydd yn gweithredu ar argymhellion i ddiwygio yn ystod haf 2023. Bydd Papur Gwyn yn dilyn yn ddiweddarach eleni.

**Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylid egluro diben rolau'r rheolwyr perthynas ac y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd i wella'r rolau er mwyn cefnogi awdurdodau lleol yn well.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol wrth inni geisio cryfhau a diwygio'r fframwaith polisi a deddfwriaethol er mwyn sicrhau ei fod yn helpu awdurdodau lleol i ymgymryd â'u cyfrifoldebau statudol o ran tai a digartrefedd yn y ffordd orau bosibl. Byddwn hefyd yn parhau i asesu ac adolygu ein strwythurau cymorth a llywodraethu er mwyn sicrhau y caiff yr agenda hon ei rhoi ar waith yn effeithiol, gan gynnwys rôl rheolwyr perthynas. Mae'r rôl hon yn ymwneud â chefnogi'r dull strategol ac amlasiantaethol sydd ei angen i gyflwyno'r agenda weddnewidiol, gan gynnwys y gwaith cynllunio strategol sydd ei angen i roi polisi ailgartrefu cyflym sy'n canolbwyntio ar atal ac atebion tai hirdymor cynaliadwy yn llawn. Wrth i'r gwaith hwn ddatblygu ledled Cymru, bydd rheolwyr perthynas yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol, gan nodi a rhannu modelau arferion gorau fel rhan o raglen o welliant parhaus.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru nodi arferion gorau o ran defnyddio adeiladau modiwlaidd ar gyfer llety dros dro, a hwyluso'r broses o rannu'r arferion.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio'r rhwydweithiau presennol, hirsefydlog i hwyluso'r broses o rannu arferion gorau o ran adeiladau modiwlaidd ar gyfer llety dros dro. Mae hyn yn cynnwys Tai Arloesol – Cymuned Ymarfer sy'n cyfarfod bob deufis i rannu gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau o gynlluniau a ariennir o dan y Rhaglen Tai Arloesol. Hefyd, byddwn yn parhau i annog cydweithredu a dysgu drwy ein cyfarfodydd rheolaidd â Housing Leadership Cymru a chyfarfodydd ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol ledled Cymru.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio cyfleoedd i ddarparu cyllid pellach ar gyfer llety dros dro a llety trosiannol, ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y cyllid presennol, gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro.**

**Ymateb: Derbyn**

Cynllun grant newydd yw'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, a sefydlwyd yn ystod haf 2022 mewn ymateb i'r angen i ddarparu mwy o lety tymor hwy o ansawdd da yn gyflym, er mwyn helpu pobl i symud ymlaen o lety dros dro. Fel cynllun grant newydd, caiff ei adolygu ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn cadarnhau ei effeithiolrwydd ac unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i hwyluso'r gwaith o ddarparu mwy o lety o ansawdd da. Am fod y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro wedi cael ei sefydlu drwy ddefnyddio cyllid cyfalaf Tai ac Adfywio a oedd eisoes ar gael, ac na chafodd unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer y rhaglen ei neilltuo yng nghyllideb 2023-24 Llywodraeth Cymru, byddwn yn ystyried sut y caiff cyllid cyfalaf ei ddefnyddio er mwyn parhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu mwy o gartrefi, gan gynnwys llety dros dro.

Yn y pecyn o gyllid i atal digartrefedd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu £15m i awdurdodau lleol yn 2023-24 i gefnogi'r gwaith o ddarparu llety dros dro. Mae'r cyllid hwn wedi cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol ar sail fformiwla er mwyn sicrhau dosbarthiad teg sy'n adlewyrchu lle mae'r galw am lety dros dro ar ei fwyaf. Byddwn yn parhau i fonitro hawliadau awdurdodau lleol ar gyfer y cyllid hwn yn ystod y flwyddyn er mwyn cael gwybod a oes modd ailddyrannu cyllid a ddyrannwyd lle mae ei angen fwyaf, neu a oes galw am gyllid ychwanegol. Wrth fonitro cyllid byddwn hefyd yn ystyried y mathau o lety dros dro sy'n cael eu hariannu a sut mae'r proffil cyllido hwn yn newid dros amser i helpu unigolion i symud ymlaen i lety mwy sefydlog.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod pobl sy’n aros mewn llety dros dro yn cael eu hysbysu am eu statws tai cyfredol, gan gynnwys pa mor hir y mae eu harhosiad yn debygol o fod, a nodi arfer gorau wrth gyfleu’r wybodaeth hon. Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am ei chanfyddiadau fel mater o frys.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Gwyddom fod cyfnodau estynedig mewn llety dros dro yn debygol o gael effaith ddinistriol ar y rhai na allant symud yn gyflym i lety sefydlog, a'r achos pryder sylfaenol sydd wrth wraidd ein huchelgais i bontio i bolisi ailgartrefu llety yng Nghymru.

Datblygwyd Deddf Tai (Cymru) 2014 ar sail yr egwyddor sylfaenol y dylai ‘camau rhesymol’ gael eu cymryd mewn partneriaeth â'r ymgeisydd ei hun, lle y bo modd. Mae hyn yn golygu y gall yr ymgeisydd, lle y bo modd, gymryd rhai o'r camau posibl sy'n gysylltiedig â dod o hyd i lety hirdymor addas, ond dylai hyn ystyried galluedd yr ymgeisydd. Felly, mae'n bwysig bod yr ymgeisydd a'r gweithiwr cymorth allweddol yn

cadw mewn cysylltiad rheolaidd er mwyn sicrhau bod y Cynllun Tai Personol yn cael ei ddiweddaru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod gan rai swyddogion awdurdodau lleol lwythi gwaith sy'n fwy beichus na'r cyffredin a bod cadw mewn cysylltiad rheolaidd yn parhau i fod yn heriol mewn rhai rhannau o Gymru. Yn ddelfrydol, dylai fod cysylltiad fel rhan o broses y cynllun Tai Personol lle mae'r ddau barti yn cymryd rhan mewn trafodaethau rhagweithiol.

Mae cyflymu'r broses o symud o lety dros dro wedi bod yn flaenoriaeth yng Nghymru ers tro ac yn sbardun i gyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro sydd â'r nod o sicrhau bod llety mewn cyflwr i'w ddefnyddio'n gyflym.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu dogfen sy'n anelu at ledaenu enghreifftiau o arferion da ynglŷn â chymorth a symud o lety dros dro a fydd yn tynnu sylw at bwysigrwydd annog ymgeiswyr i fabwysiadu ymagwedd ragweithiol tuag at eu hachos eu hunain gyda chymorth awdurdodau lleol, yn ogystal â chadw mewn cysylltiad rheolaidd.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru wella'r data a'r ystadegau am y bobl sy'n byw mewn llety dros dro gyda'r nod o lywio gwaith atal.**

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi data ar aelwydydd dros dro yn y Data Statudol ar Ddigartrefedd a gesglir bob blwyddyn a data ar unigolion sy'n cael eu cartrefu mewn llety dros dro yn y wybodaeth reoli fisol am Ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan .

Mae Tabl 6 o'r data statudol yn dadansoddi lleoliadau mewn llety dros dro yn ôl math o aelwyd a faint o amser a dreuliwyd mewn llety dros dro. Mae math o aelwyd yn cofnodi aelwydydd ar sail cyplau â phlant dibynnol, rhiant sengl a pherson sengl (yn ôl rhywedd y prif ymgeisydd). O ran yr wybodaeth reoli, ar hyn o bryd, rydym yn casglu gwybodaeth am fath o lety dros dro, statws blaenorol unigolion a dadansoddiadau yn ôl oedrannau penodol. Fodd bynnag, ni chaiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau sicrhau ansawdd.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynglŷn â gwella ansawdd yr wybodaeth reoli er mwyn iddi gael ei chyhoeddi ar lefel fanylach. Rydym hefyd yn ystyried ymgorffori rhagor o ddadansoddiadau wrth gasglu'r data hyn er mwyn llywio gweithgarwch atal, megis dadansoddiadau yn ôl oedran, a mwy o wybodaeth am ddemograffeg pobl ifanc. Dechreuwyd ymgysylltu ag awdurdodau lleol ar y gwelliannau arfaethedig hyn ym mis Mawrth 2023.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ar fyrder i'r hyn y gellir ei wneud i fonitro a gwella safonau mewn llety dros dro ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes cyfle i ddiweddaru'r canllawiau statudol presennol mewn ffordd sy'n cydnabod yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol ar hyn o bryd.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r nifer cynyddol o bobl sy'n cysyllltu i ddweud eu bod yn ddigartref, a'r ddibyniaeth gynyddol ar lety dros dro yn absenoldeb llety hirdymor addas i ateb y galw hwn. Mewn ymateb i'r galw cynyddol hwn, a'r nifer cynyddol o bobl sy'n cael eu cartrefi mewn llety dros dro, rydym wrthi'n ystyried yr opsiynau sydd ar gael i leddfu'r sefyllfa, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth lle y bo angen.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried materion penodol wrth benderfynu ar addasrwydd, ac mae Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015, yn rhagnodi'r amgylchiadau lle yr ystyrir bod llety yn addas ar gyfer person ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y canllawiau statudol presennol ar y mater hwn, sy'n cynnwys adolygiad o gyngor i awdurdodau lleol sy'n cyflawni eu dyletswyddau yn yr amgylchedd heriol hwn. Bydd unrhyw newid polisi neu newid deddfwriaethol arfaethedig hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y canllawiau statudol hyn.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried opsiynau polisi posibl eraill er mwyn helpu i leihau'r ddibyniaeth ar lety dros dro, gan gynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol a Shelter Cymru i ffurfioli'r cysyniad o 'Ddigartrefedd Gartref' fel opsiwn pan fydd unigolyn yn cysylltu i ddweud ei fod yn ddigartref. Gallai hyn gynnig manteision posibl i unigolion penodol sy'n mynd yn ddigartref, ond mae'n rhaid iddo gael ei ddatblygu'n ofalus er mwyn sicrhau bod y polisi yn cefnogi unigolion mewn angen ac awdurdodau lleol.

Rydym hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu i barhau i ddatblygu cynlluniau ailgartrefu cyflym, sy'n gofyn am asesiad strategol o'r angen am dai ac a ddylai helpu awdurdodau i ddeall a datblygu cynlluniau byrdymor, tymor canolig a hirdymor i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

Wrth i'r datblygiadau polisi hyn fynd rhagddynt, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariadau i'r Senedd a'r Pwyllgor maes o law.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 7**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y cyfle i greu rôl rheoleiddiwr digartrefedd fel rhan o'i waith i ddiwygio deddfwriaeth digartrefedd.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn yr angen i wella cysondeb gwasanaethau digartrefedd ledled Cymru. Credwn yn gryf fod gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'u cynrychiolwyr i ddeall a lleddfu'r pwysau a wynebant yn allweddol i wella gwasanaethau.

Er y byddwn yn ystyried dulliau o hyrwyddo cysondeb a gwella darpariaeth gwasanaethau, gan gynnwys rôl rheoleiddio, mae hefyd yn bwysig cydnabod y risgiau posibl. Byddai sefydlu swyddogaeth reoleiddiol ychwanegol ym maes digartrefedd yn creu'r risg o wneud trefniadau llywodraethu yn fwy cymhleth a chynyddu costau gweinyddol ac ni fyddai'n gwella'r cyflenwad o dai o reidrwydd, na'r ffactorau sy'n achosi digartrefedd sydd wrth wraidd yr argyfwng presennol. Felly, byddai angen i unrhyw gynnig o'r fath gael ei asesu'n ofalus a byddwn yn ystyried hyn a ffyrdd eraill o hyrwyddo cysondeb ac arferion gorau ymhellach wrth inni ddatblygu ein cynigion polisi a deddfwriaethol.

Bydd yr ystyriaeth hon hefyd yn cael ei llywio gan waith y Panel Adolygu Arbenigol, sy'n ystyried rheoleiddio a gorfodi fel rhan o'i waith a bydd yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2023.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau y mae’n eu cymryd i atal perchen-feddianwyr rhag mynd yn ddigartref. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am y cynnydd o ran datblygu cynlluniau achub morgeisi fel mater o frys.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni i ystyried yn ofalus yr opsiynau sydd ar gael i gefnogi pobl sy'n wynebu pwysau ariannol sy'n ei gwneud yn anodd iddynt aros yn eu cartrefi. Mae cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol wedi cael ei ddyrannu dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf er mwyn helpu perchen-feddianwyr i aros yn eu cartrefi. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am gymorth maes o law.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 9**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru fanteisio ar bob cyfle, gan gynnwys drwy Gynllun Gweithredu ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd sydd wedi’i ddiweddaru, i sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth i atal digartrefedd.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er mwyn inni roi diwedd ar ddigartrefedd, ei bod yn hollbwysig ei atal yn y lle cyntaf a sicrhau ei fod yn beth prin. Fel y nodir yn y

cynllun gweithredu ar roi diwedd ar ddigartrefedd, nid oes a wnelo atal â thai yn unig; mae a wnelo â sicrhau bod gwasanaethau eraill yn ymyrryd i gefnogi pobl ar gam cynnar er mwyn sicrhau na fyddant byth yn mynd yn ddigartref.

Bydd y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig yn ystyried sut y gellir cryfhau ymatebion ehangach yn y gwasanaethau cyhoeddus i ddigartrefedd er mwyn nodi'r risg o ddigartrefedd yn well a'i hatal. Mae hyn yn allweddol i sicrhau'r gweddnewidiad i atal ac ailgartrefu cyflym, ac mae'n rhan annatod o'r dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolion y mae awdurdodau lleol yn anelu at ei gyflawni.

Fel yr amlinellwyd mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r camau gweithredu yn ein cynllun gweithredu ar roi diwedd ar ddigartrefedd eleni. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi cynllun gweithredu ar ei newydd wedd, pan fydd camau gweithredu diwygiedig a newydd yn cael eu cynnwys.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 10**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gynyddu'r dyraniad ar gyfer y Grant Cymorth Tai cyn gynted â phosibl, gan ystyried lefel uchel chwyddiant a'r galw ar wasanaethau digartrefedd.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysau cyllidebol ar nifer o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai. Bu cyllideb 2023-24 yn un a gyflwynwyd mewn cyfnod o bwysau enfawr, gyda'n cyllideb yn werth hyd at £1biliwn yn llai y flwyddyn nesaf nag yr oedd pan gafodd ei chyhoeddi'n wreiddiol, ac rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod yr holl adnoddau sydd ar gael inni yn cael yr effaith fwyaf bosibl ac i flaenoriaethu'r rhai mwy anghenus. Byddwn yn parhau i weithredu yn y ffordd hon os bydd adnoddau ychwanegol ar gael.

Rydym yn cydnabod y pwysau sylweddol ar wasanaethau cymorth tai rheng flaen a phwysigrwydd y gwaith a wnânt wrth helpu pobl i fyw'n annibynnol ac atal digartrefedd. Er gwaethaf y pwysau cyllidebol hynod a wynebwn, rydym wedi cadw'r cynnydd o £40m i gyllideb y Grant Cymorth Tai a ddyfarnwyd yn 2021-22 felly mae hon yn aros yn £166.763m.

Er mwyn cydnabod y pwysau ehangach ar wasanaethau digartrefedd, bydd Cyllideb Atal Digartrefedd yn cynyddu £15m yn 2023-24, sef £10m yn fwy nag a fwriadwyd yn flaenorol. Mae hyn yn golygu y byddwn yn buddsoddi mwy na £210m mewn gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai y flwyddyn nesaf.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 11**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei chanllawiau ar gyfer y Grant Cymorth Tai i sicrhau bod cyllid yn helpu i ddarparu gwasanaethau atal digartrefedd effeithiol sy'n cael eu monitro a'u gwerthuso'n drwyadl.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae canllawiau'r Grant Cymorth Tai yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol a'r egwyddorion cyffredinol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol â nhw wrth gomisiynu gwasanaethau. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn nodi gofynion cadarn ynglŷn â monitro contractau gyda'r nod o hwyluso proses effeithiol o fonitro a gwerthuso gwasanaethau. Maent hefyd yn nodi bod angen i awdurdodau ystyried dull ataliol a darbodus o gomisiynu, arferion gwaith teg a'r defnydd o fathau gwahanol o gontractau a chontractau sy'n para am gyfnodau hwy (lle y bo'n briodol) er mwyn creu amgylchedd hyblyg, cynaliadwy a sefydlog i recriwtio a chadw staff a rhoi sicrwydd a chysondeb i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Byddwn yn ystyried a oes unrhyw elfennau y gellid eu cryfhau yn y canllawiau ymarfer sy'n ymwneud â chomisiynu gwasanaethau fel rhan o'n proses adolygu reolaidd.

Mae'r materion a nodwyd gan y Pwyllgor o ran cyflog staff a llesiant staff wrth gomisiynu gwasanaethau eisoes wedi cael eu nodi yn y Cynllun Gweithredu ar Roi Ddiwedd ar Ddigartrefedd ac mae gwaith yn cael ei wneud gan grŵp gorchwyl a gorffen y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd ar y gweithlu. Nod cyffredinol y gwaith yw sicrhau bod y gweithlu yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi. Mae pum maes allweddol wedi cael eu nodi o ran cyflog, sgiliau a chymwysterau, systemau cymorth i'r staff, arferion gorau wrth recriwtio a chomisiynu. Pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, lle y bo'n berthnasol, caiff y canllawiau ar y Grant Cymorth Tai eu hadolygu er mwyn ystyried lle y gellir ychwanegu at egwyddorion arferion da er mwyn helpu i hwyluso hyn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 12**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau ei hymgyrch i recriwtio staff i weithio yn y sector digartrefedd. Dylai hyn gynnwys asesiad o effeithiolrwydd y gwaith. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried sut y gellir gwella cyfraddau cadw staff ac ystyried hyn wrth fwrw ymlaen â'i hymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu i ddatblygu gweithlu gwydn sy'n cael ei werthfawrogi a'i gydnabod am ei arbenigedd.**

**Ymateb: Derbyn**

Daeth ymgyrch recriwtio digartrefedd a chymorth tai Llywodraeth Cymru i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae deunyddiau'r ymgyrch yn dal i fod ar gael at ddefnydd awdurdodau lleol a darparwyr er mwyn cyfeirio at swyddi gwag a hysbysebir ar wefan swyddi Cymorth Cymru. Caiff adroddiad gwerthuso ei baratoi

erbyn mis Mai 2023 i adolygu llwyddiant yr ymgyrch. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen ar y gweithlu (a grybwyllir yn argymhelliad 11) ac mae'n cynnwys ystyried modelau arferion gorau o recriwtio a chadw staff a sut y gellir cefnogi staff yn llawn i ddatblygu gyrfa yn y sector.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 13**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i wella data ar y sector rhentu preifat. Dylai hyn gynnwys nodi pa ddata y gellid eu casglu, sut y gellid casglu'r data a diweddariad ar gynlluniau a gafodd eu trafod yn flaenorol i fwrw ymlaen ag achos busnes ar gyfer Arolwg Tai Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i atgyfnerthu'r data sy'n gysylltiedig â'r sector rhentu preifat sydd ar gael. Rydym wedi gofyn i Rhentu Doeth Cymru ddatblygu dangosfwrdd i'w gyhoeddi ar ei wefan a fydd yn dangos data ar y sector rhentu preifat. Er ei fod yn dal i gael ei ddatblygu, disgwylir y bydd y data yn cynnwys nifer yr eiddo a gofrestrir yn ôl mis ac yn ôl ardal awdurdod lleol, ac a yw hyn yn cynyddu neu'n lleihau. Bydd data hefyd yn cael eu darparu ar nifer y landlordiaid sy'n cofrestru â Rhentu Doeth Cymru bob mis, ac o'r rhain, faint ohonynt sy'n landlordiaid newydd a faint ohonynt sy'n adnewyddu eu cofrestriad. Pan fydd Rhentu Doeth Cymru wedi cael ei hysbysu am landlordiaid sy'n gadael y sector, yna gellir dangos y data hyn hefyd.

Rydym yn bwriadu defnyddio'r Papur Gwyrdd ar Renti Teg a Hawl i Dai Digonol fel cais am dystiolaeth ynglŷn â pha ffynonellau data a chwestiynau y dylid eu cofnodi mewn Arolwg Tai i Gymru fel rhan o'r gwaith o ddatblygu achos busnes. Bwriedir cyhoeddi'r Papur Gwyn yn y gwanwyn. Bydd y Pwyllgor hefyd am nodi y bydd Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn cynnwys cwestiynau penodol ar dai.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â datblygu'r achos busnes eu talu o gyllidebau presenol.

**Argymhelliad 14**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Rhentu Doeth Cymru yn casglu data ar nifer y landlordiaid preifat sy'n gadael y sector a'u rhesymau dros wneud hynny. Dylid cyhoeddi'r data hyn yn rheolaidd.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Un o amodau trwydded landlord yw y bydd yn hysbysu Rhentu Doeth Cymru os yw wedi dewis gadael y sector. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae landlordiaid yn methu â gwneud hyn ar y pryd, gan adael i ddyddiad dod i ben eu trwydded fynd heibio â pheidio â'i hadnewyddu ar y dyddiad dod i ben ar ôl 5 mlynedd.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn casglu data ar y landlordiaid hynny nad ydynt wedi ceisio adnewyddu eu trwydded a hefyd y landlordiaid hynny sydd wedi cydymffurfio ag amodau'r drwydded ac wedi hysbysu Rhentu Doeth Cymru nad ydynt yn landlord gweithredol yng Nghymru mwyach. Fel y nodir uchod (mewn ymateb i Argymhelliad 13) lle mae'r data hyn yn hysbys, cânt eu cyhoeddi maes o law fel rhan o gyfres ehangach o ddata ar y sector rhentu preifat yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 15**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n gweithio gyda'r sector rhentu preifat i wella'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy o safon. Dylai hyn gynnwys pa gamau y mae wedi'u hystyried i gymell landlordiaid i aros yn y sector rhentu preifat.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel rhan o ymrwymiad i wella'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy o safon, lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Lesio Cymru ym mis Ionawr 2022. Ers hynny, mae awdurdodau lleol, drwy'r gallu i ddarparu grantiau cyfalaf ar gyfer gwelliannau i eiddo, wedi llwyddo i sicrhau eiddo gwag sydd, yn ei dro, yn helpu i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy a'u safon am fod y rhain yn cael eu prydlesu ar gyfraddau'r Lwfans Tai Lleol. Dros y 5 mlynedd nesaf, yr amcan yw sicrhau dros 1,500 eiddo drwy'r fenter hon.

Mae data gan Rhentu Doeth Cymru yn dangos bod landlordiaid newydd yn cofrestru a bod nifer yr eiddo rhentu wedi cynyddu yng Nghymru yn gyffredinol o 208,089 ym mis Awst 2022 i 209,101 ym mis Ionawr 2023, sy'n awgrymu bod y mwyafrif o landlordiaid yn aros yn y sector.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llai o drosiant yn y sector wrth i lai o bobl symud rhwng eiddo neu adael y sector rhentu preifat. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle mae llai o eiddo ar gael i'w rentu, tra bod galw mawr o hyd am rentu eiddo. Byddwn yn ystyried sut y gallem gynyddu'r cyflenwad o eiddo rhentu preifat ymhellach yn y Papur Gwyrdd ar Renti Teg yn ddiweddarach yn y gwanwyn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 16**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau y mae'n eu cymryd i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU i gynyddu cyfradd y Lwfans Tai Lleol i o leiaf 30ain ganradd o renti'r farchnad leol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn bod rhenti yn y sector preifat yn cynyddu ar eu cyfradd gyflymaf ers dros 13 mlynedd, gan achosi mwy o fwlch rhwng rhenti gwirioneddol a chyfradd y Lwfans Tai Lleol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn golygu

nad oes gan bobl fawr ddim dewis arall ond dod o hyd i'r rhent ychwanegol o'r arian sy'n weddill ganddynt, sy'n rhoi cryn bwysau ar bobl a hynny ar adeg pan fo costau byw mor uchel. Byddai newid i'r Lwfans Tai Lleol yn cael effaith sylweddol ar y pwysau yn y sector rhentu preifat ar hyn o bryd a dyma pam rydym wedi galw ar Lywodraeth y DU dro ar ôl tro i gynyddu cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ac wedi gofyn bod budd-daliadau yn seiliedig ar y lefelau rhentu presennol. Rydym hefyd wedi gofyn bod cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn daladwy ar y 50fed ganradd, fel yr oeddent pan gyflwynwyr Lwfansau Tai Lleol gyntaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i nodi pam mae angen i'r polisi cyfredol gael ei ailwerthuso a bydd yn pwyso am newidiadau i gyfradd y Lwfans Tai Lleol sy'n adlewyrchu'r amgylchedd presennol.

Nodwn hefyd gefnogaeth y Pwyllgor i annog Llywodraeth y DU i wneud newidiadau ar y mater hwn, yn enwedig yng ngoleuni'r heriau cynyddol sy'n gysylltiedig â chostau byw.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 17**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru archwilio rôl Rhentu Doeth Cymru o ran gwella’r data ar renti’r sector rhentu preifat a chyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i’r Pwyllgor.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Byddwn yn ystyried dulliau o wella data rhentu yng Nghymru yn y Papur Gwyrdd, ac yna'r Papur Gwyn ar Renti Teg, fel rhan o ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth a dealltwriaeth o oblygiadau posibl y gwahanol ymyriadau polisi.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 18**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall adolygu a diwygio Cynllun Lesio Cymru i’w wneud yn fwy deniadol i landlordiaid. Dylai hefyd nodi sut y bydd yn codi ymwybyddiaeth o’r cynllun, yn enwedig gydag asiantaethau gosod tai a gwerthwyr tai.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae nifer o welliannau wedi cael eu gwneud i Gynllun Lesio Cymru ers ei gyflwyno, sy'n adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd gan fabwysiadwyr cynnar a newidiadau yn y farchnad. Yn fwyaf diweddar, drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys y gallu i sicrhau grant ychwanegol o £5,000 i wella perfformiad ynni eiddo tuag at gyrraedd safonau C Tystysgrif Perfformiad Ynni. Mae hyn yn golygu y gallai cyfanswm grant o £30,000 fod ar gael i landlord sy'n ymrwymo i Gynllun Lesio Cymru am 20 mlynedd.

O fis Ebrill, byddwn hefyd yn ymestyn y cynllun er mwyn i dai amlfeddiannaeth, sy'n cyrraedd safonau penodol, fod yn gymwys hefyd i fod yn rhan o Gynllun Lesio Cymru a chael cyllid grant ar gyfer gwelliannau. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gynyddu'r llety o ansawdd i bobl sengl, gan gynnwys pobl ifanc sydd wedi cael anhawster i sicrhau llety addas ac sydd naill ai'n ddigartref neu'n wynebu risg o fod yn ddigartref.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Propertymark a Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Cofrestredig er mwyn hyrwyddo Cynllun Lesio Cymru drwy'r cyrff cynrychioliadol proffesiynol hyn. Hefyd, mae awdurdodau lleol sydd wedi ymrwymo i Gynllun Lesio Cymru wedi bod yn cymryd rhan yn eu fforymau lleol i landlordiaid er mwyn annog pobl i fod yn rhan o'r cynllun a chodi ymwybyddiaeth ohono. Rydym hefyd yn bwriadu cyfathrebu ymhellach yn ddiweddarach eleni, drwy Rhentu Doeth Cymru, â phob landlord ac asiant sydd wedi cofrestru i dderbyn cylchlythyr Rhentu Doeth Cymru.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 19**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru archwilio’r holl opsiynau posibl ar gyfer cynyddu nifer y llety un ystafell wely sydd ar gael, gan gynnwys opsiynau ar gyfer sicrhau bod y system gynllunio yn annog datblygwyr i ddarparu mwy o lety un ystafell wely yn y lleoliadau priodol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw cynnal adolygiadau o'r angen am dai o bryd i'w gilydd, a wneir drwy broses yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae'r asesiad hwn, yn ei dro, yn llywio Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) awdurdodau lleol sy'n cynnwys targedau ar gyfer nifer y cartrefi fforddiadwy y mae'r awdurdod yn anelu at eu darparu dros gyfnod y cynllun. Mae'n rhaid i CDLlau hefyd nodi sut a ble mae'r awdurdod yn bwriadu darparu'r cartrefi fforddiadwy er mwyn cyflawni'r targed a bennwyd ganddo.

Cyhoeddwyd dull newydd o gynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol ar 31 Mawrth 2022. Mae'r dull newydd hwn yn golygu mwy o gysondeb o ran sut mae Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn cael eu cynnal drwy ddarparu adnodd wedi'i ragboblogi ac yn cyflwyno gofyniad i Lywodraeth Cymru adolygu a chymeradwyo Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ailysgrifennu neu adnewyddu eu Hasesiadau o'r Farchnad Dai Leol erbyn mis Mawrth 2024.

Mae proses newydd yr Adolygiad o'r Farchnad Dai Leol yn cyfrifo'r angen am dai ar sail amcanestyniadau o aelwydydd, ac mae'n cynnwys y cyfleuster i awdurdodau lleol ychwanegu'r angen cyfredol am dai nas diwallwyd yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau bydd yr Adolygiad o'r Farchnad Dai Leol yn amcangyfrif nifer y cartrefi cymdeithasol sydd eu hangen yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely (gan gynnwys cartrefi ag un ystafell wely) ym mhob ardal o'r farchnad dai mewn awdurdod lleol dros gyfnod o 15 mlynedd. Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol, yn ei dro, drwy ei CDLl, nodi sut y bydd yn darparu'r cartrefi hyn.

Mae gwaith wedi cael ei wneud i gysoni proses gyllido'r Grant Tai Cymdeithasol yn well â'r dystiolaeth o'r angen lleol am dai. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi “prosbectws” sy'n amlinellu eu blaenoriaethau strategol o ran tai ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol. Defnyddir y wybodaeth hon hefyd i lywio cynlluniau ailgartrefu cyflym awdurdodau lleol. Bydd awdurdodau lleol hefyd yn cael eu hannog i ddefnyddio tystiolaeth o'u Hadolygiadau o'r Farchnad Dai Leol i lywio eu prosbectws cyllido.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddyrannu'r Grant Tai Cymdeithasol i ddatblygu cynlluniau sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cyflawni eu blaenoriaethau strategol. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu cynlluniau awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod cynlluniau a ariennir yn diwallu'r angen a nodwyd yn eu prosbectws. Os na fydd y cynlluniau a ariennir yn diwallu'r angen hwnnw, caiff hyn ei herio.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 20**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae’n gweithio gydag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a gwasanaethau cymorth i sicrhau bod mwy o lety a rennir o ansawdd uchel ar gael. Dylai hyn gynnwys codi ymwybyddiaeth o’r opsiynau ar gyfer llety a rennir a rhannu arferion da.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn yr angen i gynyddu faint o lety a rennir o ansawdd uchel sydd ar gael. O fis Ebrill, byddwn yn ymestyn Cynllun Lesio Cymru er mwyn i dai amlfeddiannaeth sy'n cyrraedd safonau penodol fod yn gymwys i ddod yn rhan o'r cynllun, a chael cyllid grant ar gyfer gwelliannau. Bydd yn rhoi cyfle i sicrhau bod llety o ansawdd ar gael i bobl sengl, gan gynnwys unigolion ifanc sydd wedi cael anhawster i sicrhau llety addas ac sydd naill ai'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.

Drwy'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Trosiannol rydym hefyd yn cyllido llety a rennir, ar yr amod ei fod yn cyrraedd y safonau gofynnol a bennwyd yn fframwaith safonau'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Trosiannol y bwriedir iddo sicrhau dull hyblyg ac ymatebol o gyflwyno mwy o lety o ansawdd da yn gyflym.

Mae ein cyfarfodydd rheolaidd â Housing Leadership Cymru a'n cyfarfodydd ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol yng Nghymru yn rhoi fforwm lle y gallwn drafod gwersi a ddysgwyd a nodi arferion da o ran darparu a defnyddio llety a rennir o ansawdd uchel.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 21**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda landlordiaid cymdeithasol i sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o gynlluniau i’w galluogi i brynu eiddo gan landlordiaid preifat, gan gynnwys eiddo â thenantiaid. Dylai hyn gynnwys ymwybyddiaeth o ba gymorth sydd ar gael i ddod â’r eiddo i fyny i’r safonau perthnasol o fewn amserlen y cytunwyd arni.**

**Ymateb: Derbyn**

Sefydlwyd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Trosiannol yn ystod haf 2022 mewn ymateb i bwysau tai ehangach a'r angen i flaenoriaethu symud ymlaen o lety dros dro. Yn yr hydref, o ystyried pwysau costau byw, ehangwyd y cynllun hwn i gynnwys prynu eiddo, gan gynnwys eiddo â thenantiaid, er mwyn atal digartrefedd a gwella ansawdd tai. Gall cyllid y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro gael ei ddefnyddio i brynu eiddo ac i wneud gwelliannau.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 22**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru nodi pa ddata mae’n eu casglu ar dai cymdeithasol gwag, gan gynnwys yr amser a gymerir i ailosod eiddo gwag, y rhesymau pam mae eiddo’n aros yn wag, a sut mae’n cefnogi landlordiaid cymdeithasol i sicrhau bod eiddo ar gael i’w osod.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi amrywiaeth o ddata mewn perthynas â thai cymdeithasol gwag, y gellir eu gweld drwy ddilyn y ddolen: Tai cymdeithasol gwag (llyw.cymru). Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys a yw eiddo wedi bod yn wag am fwy na chwe mis neu lai na chwe mis, a yw'r eiddo ar gael i'w osod ar hyn o bryd, lleoliad yr eiddo gwag a pherchennog yr eiddo gwag.

Mae mater casglu data tai cymdeithasol amser real wrthi'n cael ei ystyried, gan gynnwys goblygiadau posibl casglu data o'r fath o ran adnoddau.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 23**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad ar ei chanfyddiadau ynghylch y mater hwn i’r Pwyllgor a sicrhau bod polisïau dyrannu pob landlord cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi’n rheolaidd fel eu bod yn agored i’r cyhoedd graffu arnynt.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod dyraniadau tai cymdeithasol yn rhan hollbwysig o'n pecyn cymorth i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Maent yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod llety fforddiadwy ar gael, ac mae'n hanfodol bod tai cymdeithasol, yn ogystal ag eiddo yn y sector rhentu preifat, ar gael i'r rhai sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref, fel llwybrau tuag at lety cynaliadwy a sefydlog.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn caniatáu ar gyfer gweithredu polisïau dyrannu gwahanol rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol unigol yn cyhoeddi eu polisïau dyrannu tai cymdeithasol ar-lein, ond nid oes gofyniad cyfreithiol i wneud hynny. Mae'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi ar gyfer dyraniadau tai cymdeithasol yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymrwymiad ehangach i ddiwygio cyfraith tai i ganolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym.

Fel yr amlinellwyd yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, mae adolygiad o bolisïau dyrannu ledled Cymru yn mynd rhagddo. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i ddyraniadau tai cymdeithasol ar gyfer Cymru gyfan, gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol, er mwyn cael deall y polisïau sydd ar waith, a sut maent yn cynnwys ac yn dyrannu tai cymdeithasol i'r rhai â'r angen mwyaf, y rhai sy'n ddigartref, a phobl â nodweddion gwarchodedig. Bydd hyn yn ystyried pam nad yw'r rhai sydd â'r angen mwyaf yn gofyn am dai o bosibl. Bydd yr ymchwil hon yn helpu i lywio diwygiadau polisi a diwygiadau deddfwriaethol posibl.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 24**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi awdurdodau lleol i roi eu cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym ar waith.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae ailgartrefu cyflym yn ddull o roi diwedd ar ddigartrefedd a gydnabyddir yn rhyngwladol a dyna pam mae'n hollbwysig bod pob awdurdod lleol yn datblygu cynllun argyhoeddiadol sy'n egluro sut y caiff ailgartrefu cyflym ei roi ar waith. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phob awdurdod lleol, a'i bartneriaid ehangach, er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym a'u rhoi ar waith. Mae rhoi ailgartrefu cyflym ar waith yn llwyddiannus yn gofyn am ddull gweithredu system gyfan lle mae digartrefedd yn gyfrifoldeb ar bawb. Er mwyn cefnogi hyn, rydym wedi darparu cyllid ar gyfer swyddogaeth gydgysylltu strategol ym mhob ardal awdurdod lleol, er mwyn helpu awdurdod i gymryd perchenogaeth yn gorfforaethol, yn ogystal â phartneriaid amlasiantaethol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim